**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**PWYLLGOR GWEITHREDOL CANGEN SENEDD CYMRU**

**ADRODDIAD I GANGEN Y SENEDD AM Y CYFNOD**
**10 Rhagfyr 2024 – 28 Chwefror 2026**

## Cefndir

Cytunodd Senedd Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais i gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Croesawyd Cymru yn ffurfiol yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi 1999.

## Strwythur y Gangen

**Mae pob un o'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau awtomatig o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**

## Deiliaid Swyddi:

| | |
|---|---|
| *Llywydd:* | Elin Jones AS |
| *Is-lywydd:* | David Rees AS |
| *Cadeirydd:* | Rhun ap Iorwerth AS |
| *Ysgrifennydd:* | Manon Antoniazzi,<br>Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd |
| *Ysgrifennydd Dros Dro* | Al Davies,<br>Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol |

## Pwyllgor Gweithredol y Gangen

Rhianon Passmore AS
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS
Delyth Jewell AS

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod hirach nag arfer, oherwydd etholiadau'r Senedd sydd ar y gorwel. Dyma yw un o'r cyfnodau prysuraf i'r Gangen, a'r uchafbwynt yn ddiamau yw cynnal, am y tro cyntaf ers dros ddegawd, Gynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR).

Dros dridiau gogoneddus ym mis Mehefin 2025, croesawom y mwyafrif o ddeddfwrfeydd y Rhanbarth yn ogystal ag arsylwyr rhyngwladol i Gaerdydd ar gyfer Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir. Un o ganlyniadau nodedig y gynhadledd oedd lansio Rhwydwaith LHDT+ Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yn y Senedd; y tro cyntaf i unrhyw un o naw rhanbarth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wneud hynny.

Ymysg yr uchafbwyntiau eraill mae ein cyfranogiad yng Nghynadleddau Rhanbarthol Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon; Gweithdy Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad yn y Bahamas; Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Barbados; Fforwm y Seneddwyr Rhanbarthol ag Anableddau yn yr Alban, a chymryd rhan fel arsylwyr gwadd yng Nghynhadledd Ranbarthol Canada yn Ninas Quebec.

Roeddem wrth ein bodd yn sicrhau cynrychiolaeth yng nghynhadledd "*Rôl Seneddau mewn Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol*" ym Malaysia." Y llynedd hefyd, chwaraeodd y Gangen rôl bwysig mewn Cenadaethau Arsylwyr Etholiadau ar yr Ynysoedd Cayman ac Ynysoedd y Falkland, gyda'r genhadaeth olaf ar yr Ynysoedd y Falkland yn cael ei harwain gan Aelod o Gangen y Senedd, am y tro cyntaf.

Wrth edrych ymlaen, mae'r misoedd nesaf yn gyfle i'n Cangen fod yn rhan o nifer o gynadleddau, gan gynnwys ein Cynhadledd Ranbarthol yn Gibraltar yn ogystal â Chynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Cape Town, De Affrica. Bydd hefyd yn gyfnod lle gwelwn y Senedd yn cymryd ei sedd yn swyddogol ar Bwyllgor Gweithredol Rhyngwladol dylanwadol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

Wrth i mi gamu o'r neilltu, ar ôl bron i ddegawd fel Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, rwy'n myfyrio ar yr hyn sydd nid yn unig wedi bod yn brofiad gwerth chweil iawn i mi yn bersonol, ond hefyd yn gyfnod o falchder i'r Gangen. Balchder yn y llywodraethu cadarn sydd bellach ar waith ac sy'n parhau i esblygu, er mwyn sicrhau cyfleoedd gwell a rennir yn eang i'n Haelodau, gan ddarparu llwyfan i arddangos y Senedd ar y llwyfan rhyngwladol.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl Aelodau sydd wedi ymgysylltu â'r cyfleoedd a geir o ganlyniad i’n haelodaeth o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ac wedi elwa ohonynt. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn parhau i fod yn rhwydwaith pwysig i'r Senedd a'n Haelodau yn ystod y Seithfed Senedd, a thu hwnt.

**Rhun ap Iorwerth AS** (Cadeirydd Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y Senedd)

## RHAI O’R GWEITHGAREDDAU A GYFLAWNWYD.

### Cynadleddau Rhanbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir

*54fed Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir,*
*Senedd, Cymru*
*Mehefin 2025*

Roedd y Senedd wrth ei bodd yn cynnal Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, y tro cyntaf iddi wneud hynny ers 2014.

Wrth i'r haul ddisgleirio ar Fae Caerdydd, croesawyd dros 50 o Gynrychiolwyr i Gymru, yn cynrychioli y mwyafrif o Ganghennau'r Rhanbarth, yn ogystal ag arsylwyr rhyngwladol o Gynulliad Cenedlaethol Quebec a Senedd Daleithiol y Penrhyn Gorllewinol (De Affrica)

Dros gyfnod o dridiau, archwiliodd y gynhadledd ar y thema “*Mynd i'r Afael ag Anghenion Senedd Fodern*" bynciau oedd yn cynnwys *Profiad Senedd Ieuenctid Cymru, Pwysigrwydd Lleisiau LHDT+ yn y Senedd a Chefnogi Iechyd Meddwl a Llesiant Seneddwyr.* Cafodd y gynhadledd, oedd yn cynnwys cyfranogiad dros ddwsin o Aelodau’r Senedd, adborth cadarnhaol tu hwnt. Roedd yn gyfle gwych i arddangos yr hyn sydd orau yn y Senedd wrth gynnig blas ar Gymru a'n lletygarwch enwog i'n gwesteion rhyngwladol. **Adroddiad**

### Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir

11eg *Cynhadledd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir*

*Caeredin, yr Alban*
*Mawrth 2025*

Cynrychiolwyd Cangen y Senedd gan Rhianon Passmore AS, Natasha Asghar AS a Sioned Williams AS yng Ngynhadledd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad a gynhaliwyd gan gangen yr Alban o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Thema'r gynhadledd oedd "*Senedd i Bawb: Pwysigrwydd Menywod mewn Gwleidyddiaeth*" Adroddiad

*12fed Cynhadledd Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir*
*Belfast, Gogledd Iwerddon*
*Chwefror 2026*

Cynrychiolodd Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS y Senedd yn y Gynhadledd Ranbarthol hon i Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad, a gynhaliwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon yn Stormont. Thema'r Gynhadledd oedd "*Pŵer a Heddwch: Diogelu Ein Hiechyd Meddwl mewn Bywyd Cyhoeddus*". Adroddiad swyddogol yn cael ei ddatblygu." Dolen i Erthygl Ysgrifenyddiaeth y CPA

*Gweithdy Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad*
*Nassau, Y Bahamas*
*Ebrill/Mai 2025*

Cynrychiolodd Sioned Williams AS y Senedd yn y gweithdy hwn i Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad, a'i thema oedd "Seneddwyr fel Ysgogwyr i Rymuso Menywod yn Economaidd". **Adroddiad**

**Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau**

Mae Mark Isherwood AS, fel Hyrwyddwr y Senedd dros Seneddwyr ag Anableddau, wedi parhau i arwain ymgysylltiad y Senedd â rhwydwaith Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau.

Ym mis Chwefror 2026, cynrychiolodd Mark Isherwood AS y Senedd yn **Fforwm Cyntaf Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir,** a gynhaliwyd gan Senedd yr Alban yng Nghaeredin. Ceir rhagor o wybodaeth yma (dolen i Erthygl Ysgrifenyddiaeth y CPA).

**Seneddwyr LHDT+**

Lansiwyd Rhwydwaith LHDT+ Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2025, sy'n destun balchder mawr i'r Senedd.

Mae'r rhwydwaith, er yn ei ddyddiau cynnar, wedi bod yn weithgar iawn. Mae'r Pwyllgor Llywio, gydag Adam Price AS yn Gadeirydd dros dro iddo a lle mae Hannah Blythyn AS yn Aelod, wedi cyfarfod yn aml, ac ym mis Tachwedd 2025 cynhaliwyd y fforwm wyneb yn wyneb cyntaf yn San Steffan. Archwiliodd y rhaglen y themâu allweddol canlynol: “*Gwelededd pobl LHDT+ mewn gwleidyddiaeth ar draws Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir*" a "*Statws cydraddoldeb LHDT+ ar draws y Gymanwlad ehangach*"

Gellir darllen erthygl gan Adam Price MS, yn myfyrio ar y Fforwm **yma.**

**Cenadaethau Arsylwi Etholiadau**

Cymerodd Alun Davies MS ran yng Ngenhadaeth Arsylwi Etholiadau Ebrill/Mai 2025 ar yr Ynysoedd Cayman (Adroddiad Terfynol) ac arweiniodd y Genhadaeth i Ynysoedd y Falkland ym mis Rhagfyr 2025. Dolenni i’r Canfyddiad Cyntaf a Datganiad rhagarweiniol

**Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad:**

*68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad,*
*Bridgetown, Barbados*
*Hydref 2025*

Cynrychiolodd Natasha Asghar AS ac Alun Davies AS y Senedd yng Nghyfarfod Seneddol y Gymanwlad 2025. Yn y Gynhadledd, a fynychwyd gan dros 500 o seneddwyr o bob cwr o naw rhanbarth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, cymerodd y Senedd ei lle ar Bwyllgor Gweithredol Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Adroddiad

*73ydd Seminar San Steffan*
*Mawrth 2025*

Cynrychiolodd James Evans AS y gangen yn y seminar yn San Steffan. Y seminar yw rhaglen flynyddol flaenllaw Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU ac fe’i hanelir at Aelodau newydd neu newydd eu hethol a Chlercod sy'n datblygu.

*Cynadleddau, Seminarau a Gweithdai nodedig eraill*.

*61ain Cynhadledd Ranbarthol Canada*
*Dinas Quebec*
*Gorffennaf 2025*

Cynrychiolodd Is-lywydd y Gangen, David Rees AS, y Senedd yng Nghynhadledd Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghanada. Roedd y Gynhadledd yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau yng Nghymru, yn ogystal â meithrin cysylltiadau newydd a chryfhau cysylltiadau sy'n bodoli'n barod rhwng y Senedd a nifer o ddeddfwrfeydd Canada. **Adroddiad**

*Cynhadledd "Rôl Seneddau o ran Llywio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol" Kuala Lumpur, Malaysia*
*Tachwedd 2025*

Dewiswyd Adam Price AS a Hannah Blythyn AS yn gynrychiolwyr y Senedd i fynychu'r gynhadledd hon, a gynhaliwyd gan Senedd Malaysia, mewn partneriaeth â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad, yr Undeb Rhynglywodraethol a Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig.
**Adroddiad**

**Ymweliadau nodedig.**
*Cynhaliodd y Llywydd ymweliadau swyddogol â'r Senedd gan y Llywyddion Cymanwlad canlynol, yn ystod y cyfnod adrodd hwn.*

*Llywydd Senedd Awstralia (ffederal) yr Arlywydd Sue Lines*
*Llywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd, yr Arlywydd Ben Franklin*
*Llywydd Senedd Queensland, yr Anrhydeddus Pat Weir AS*

Mae'r Gangen hefyd wedi bod yn falch o ddatblygu rhaglenni ar gyfer Llywyddion, Aelodau, Dirprwyaethau ac Uchel Gomisiynwyr sy'n cynrychioli nifer o Seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys India, Canada, Seland Newydd a Malta.

**I ddod yn 2026**

- 55fed Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, Gibraltar (17-20 Mehefin)
- 13eg Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, De Cymru Newydd (Awstralia) (27-31 Gorffennaf)
- 68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Cape Town, De Affrica (13-18 Medi)

Chwefror 2026